# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 14EG IONAWR, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**


Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**annession@gwynedd.llyw.cymru**

**01286 679 490**


(Dosbarthwyd 10/1/22)

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD

## Aelodau a phleidlais

**Y Cynghorwyr**

**Hugh Evans Cyngor Sir Ddinbych**

**Llinos Medi Huws Cyngor Sir Ynys Môn**

**Charlie Mc Coubury Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Mark Pritchard Cyngor Wrecsam**

**Ian Roberts Cyngor Sir y Fflint**

**Dyfrig L Siencyn Cyngor Gwynedd**

**Wyn Ellis-Jones Parc Cenedalethol Eryri***

***Aelod sydd â hawl i bleidleisio yng nghyswllt y swyddogaeth cynllunio strategol a'i chyllideb.**

## Prif Swyddogion

**Annwen Morgan Cyngor Sir Ynys Môn**

**Iwan Davies Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Neal Cockerton Cyngor Sir y Fflint**

**Graham Boase Cyngor Sir Ddinbych**

**Ian Bancroft Cyngor Wrecsam**

**Dafydd Gibbard Cyngor Gwynedd**

**Emyr Williams Parc Cenedlaethol Eryri**

## Swyddogion yn bresennol

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2021/22

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. PENODI SWYDDOGION STATUDOL Y CBC 4 - 5

I benodi,

a) Prif Weithredwr
b) Prif Swyddog Cyllid ('Swyddog Adran 151')
c) Swyddog Monitro a Swyddog Priodol

## 7. MABWYSIADU RHEOLAU SEFYDLOG A CHYFANSODDIAD CBC 6 - 9

I ystyried a mabwysiadu rheolau sefydlog a chyfansoddiad y Cyd-bwyllgor

## 8. BLAEN RAGLEN WAITH Y CBC 10 - 11

I ystyried a chymeradwyo blaen raglen waith Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

# Eitem 6

CYFARFOD: **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd**

DYDDIAD: **14 Ionawr 2022**

PWNC: **Penodi Swyddogion Statudol y CBC**

SWYDDOG CYSWLLT: **Dafydd L Edwards**, **Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC**

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR**

**Penodi'r Swyddogion Statudol canlynol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yn weithredol o 14 Ionawr 2022 o leiaf hyd nes y bydd y trefniadau'n cael eu adolygu ym mis Mehefin 2022:**

**a) Prif Weithredwr**

**b) Prif Swyddog Cyllid ('Swyddog Adran 151')**

**c) Swyddog Monitro a Swyddog Priodol**

---

**CEFNDIR**

**1.** Ymhellach i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn sefydlu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, rhaid i'r Cyd-Bwyllgor wneud trefniadau priodol yn ei gyfarfod cyntaf, wedyn cymeradwyo ei gyllideb am 2022/23 erbyn 31 Ionawr 2022, cyn bydd swyddogaethau cychwynnol y CBC yn 'mynd yn fyw' ar 30 Mehefin 2022.

**2.** Ymysg y trefniadau priodol cyntaf, rhaid i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd benodi ei Swyddogion Statudol.

**3.** Mae Rheoliadau Cyd-Bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) benodi tri swyddog statudol, yn cynnwys Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid ('Swyddog Adran 151'), a Swyddog Monitro.

**4.** Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn caniatáu hyblygrwydd sut y gall y CBC gyflogi staff, gan gynnwys swyddogion statudol. Gall y CBC eu cyflogi'n uniongyrchol, neu gall wneud trefniadau gydag awdurdodau cyfansoddol i'w staff gael eu rhoi wrth law'r CBC. Felly, gall swyddi'r swyddogion statudol allweddol hyn gael eu darparu gan awdurdod cyfansoddol (h.y. secondiad rhan-amser o un o'r 6 Cyngor).

**5.** Mae gofyn hefyd dynodi 'Swyddog Priodol' ar gyfer y CBC dan Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Lywodraeth Leol a Thai 1989. Dynodiad trefniadaethol ond angenrheidiol ydi hon o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol. Yr esiampl amlycaf yw dynodi mater yn fater eithriedig ar gyfer rhaglenni cyfarfod. Argymhellir y dylid dynodi'r Swyddog Monitro yn Swyddog Priodol ar hyn o bryd er sicrhau nad oes amheuaeth ynglŷn â'r swyddogaeth.

6. Yn ddamcaniaethol, mae rhai risgiau posibl o wrthdaro buddiannau, ond yn ymarferol nid yw hyn wedi bod yn broblem lle mae awdurdod cyfansoddol (Cyngor Gwynedd) wedi darparu swyddogion statudol ar gyfer trefniadau Cyd-Bwyllgor wedi'i letya, megis Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y BUE) a gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE).

7. Efallai y bydd risgiau posibl hefyd o ran capasiti a gwytnwch, gyda swyddogion statudol a ddarperir gan awdurdodau cyfansoddol yn cario cyfrifoldeb a llwyth gwaith ychwanegol. Mae gwaith sylweddol ar droed wrth sefydlu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Fodd bynnag, cyn eglurder ar unrhyw drosglwyddo o swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ayb, mae'r ansicrwydd ynghylch maint cyllidebau a swyddogaethau yn ei gwneud hi'n anodd i benodi yn barhaol neu yn llawn-amser i swyddi statudol y CBC rwan.

8. Mae sefydlu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ofyniad cyfreithiol, ac mae'r amserlen yn heriol, yn enwedig yr angen i osod y gyllideb a'r taliadau ardoll ym mis Ionawr 2022.

9. Mae Cyngor Gwynedd eisoes yn darparu Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sydd â swyddogaethau gallai drosglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd yn ystod 2022/23. Mae Cyngor Gwynedd hefyd eisoes yn darparu Swyddog Arweiniol Prosiect CBC y rhanbarth, Dafydd Edwards.

10. Er mwyn galluogi Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i symud ymlaen, argymhellir y dylai'r swyddogion statudol gael eu darparu gan Gyngor Gwynedd am y tro, tra bo Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd yn cael ei sefydlu (o leiaf hyd nes bod swyddogaethau cychwynnol y CBC yn 'mynd yn fyw' ar 30 Mehefin 2022). Gellir adolygu'r trefniadau dros dro yma wedi hynny, a'r bwriad fydd cyflwyno adroddiad pellach ar yr opsiynau posib ar gyfer penodi i'r swyddogaethau hyn ar sail parhaol.

**ARGYMHELLIAD**

11. **Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd benodi:**

    a. **Dafydd Gibbard fel Prif Weithredwr y CBC**

    b. **Dewi Aeron Morgan fel Prif Swyddog Cyllid y CBC**

    c. **Iwan G Evans fel Swyddog Monitro a Swyddog Priodol y CBC**

    (pob un yn ddeiliydd y swydd berthnasol yng Nghyngor Gwynedd)

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **14 Ionawr 2022** |
| PWNC: | **Rheolau Sefydlog a Chyfansoddiad** |
| AWDUR: | **Iwan Evans Swyddog Monitro – Cyngor Gwynedd** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

1. **Mabwysiadu Rheolau Sefydlog ar gyfer y Cyd Bwyllgor Corfforedig a derbyn y cyfeiriad ynglŷn a sefydlu Cyfansoddiad.**

2. **Dirprwyo hawl i'w Swyddog Monitro wneud newidiadau golygyddol i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer eu cyhoeddi.**

---

**RHESWM AM Y PENDERFYNIAD**

1. Mae Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig ("CBC") wneud Rheolau Sefydlog er rheoleiddio ei weithrediadau a busnes.
2. Mae bwriad yn y drafft o Reoliadau Cyd Bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Cymru) 2022 y bydd gofyn i CBC baratoi a chyhoeddi Cyfansoddiad.
3. Bwriad yr adroddiad yma yw sefydlu Rheolau Sefydlog Cychwynnol mewn templed y gellir ei ymestyn i greu Cyfansoddiad sydd yn cyfarch gofynion ond yn gymesurol a natur a maint CBC.

**CEFNDIR**

4. Gan gynnwys Rheoliadau sefydlu CBC y Gogledd ar y 1af o Ebrill 2021 mae eisoes 3 set o Reoliadau llywodraethu wedi dod i rym. Yn ogystal a'r rheoliadau sefydlu mae 2 set o Reoliadau Cyffredinol wedi eu mabwysiadu gyda rhif 2 yn dod i rym yn helaeth ar y 3ydd o Ragfyr 2021. Mae ymgynghoriad ar Reoliadau Cyffredinol (3ydd) ychwanegol newydd gau cyn y Nadolig a disgwylir y byddent yn dod i rym yn y Gwanwyn. Mae'n bosib bydd un cyfrol arall.
5. Gellir gweld felly fod sefydlu trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer y CBC yn gorfod ymateb a datblygu gyda cefndir o sefyllfa gyfreithiol sydd yn parhau i esblygu. Mae rhai agweddau megis Trosolwg a Chraffu newydd fod yn destun ymgynghoriad. Yn yr un modd nid yw'r gyfundrefn Cod Ymddygiad a Phwyllgor Safonau wedi ei gadarnhau eto. Mae'r rhan yma mewn *italics* yn y Rheoliadau Sefydlog ar y ddamcaniaeth y bydd y trefniadau yn adlewyrchu yr ymgynghoriad ond nid yw hyn wedi ei gadarnhau.
6. Mae'r Rheoliadau sydd mewn bodolaeth hyd yn hyn yn cyfuno dau elfen, trefniadau sydd benodol ar gyfer CBC a rheoliadau sydd yn ymestyn

dyletswyddau a gofynion sydd ar Brif Gynghorau at y CBC.  Mae'r rhain yn cynnwys nid yn unig materion megis penodi Swyddogion  Statudol  ond hefyd o safbwynt llywodraethu ystod o faterion megis trefniadau staffio, gofynion sydd yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau  (Cymru ) 2021.

7. Amcan yr argymhelliad yma yw creu Rheolau Sefydlog cychwynnol fydd yn caniatáu i'r CBC gynnal ei weithgareddau sefydlu mewn modd sydd yn cyd-fynd a'r gofynion statudol creiddiol a chreu platfform ymarferol hyblyg all ddatblygu wrth i'r sefydlu yn ymlaen.

**8 . SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro**

I'w darparu yn y cyfarfod

**Y Pennaeth Cyllid**

I'w darparu yn y cyfarfod

**CYFANSODDIAD CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

**RHAN 1 - RHEOLAU SEFYDLOG**

1. **CYFFREDINOL**

1.1 Mae **Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** (y "CBC") yn gorff corfforedig sydd wedi'i sefydlu gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 (y "Rheoliadau Sefydlu")

1.2 Aelodau'r CBC yw arweinyddion gweithredol y chwe Chyngor Cyfansoddol:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ("yr **Aelodau Cyngor**") ac

Aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ("**Aelod Eryri**"); ac

unrhyw Aelod Cyfetholedig

1.3 Caiff Aelod Eryri ei benodi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ("**APCE**" â'r "**Awdurdod**") a rhaid iddo fod yn ddeilydd un o'r swyddi a ganlyn:

1.1.1 Cadeirydd yr Awdurdod;

1.1.2 Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod; neu

1.1.3 Gadeirydd pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am faterion cynllunio fel y gellir ei sefydlu gan yr Awdurdod.

1.2 Bydd pob Aelod Cyngor yn gweithredu fel aelod o'r CBC yng nghyswllt holl swyddogaethau'r CBC.

1.3 Bydd Aelod Eryri yn gweithredu fel aelod o'r CBC yng nghyswllt y Swyddog Cynllun Datblygu Strategol. unrhyw swyddogaeth sydd sy'n ategol i'r swyddogaethau hynny neu'n gysylltiedig â hwy.

1.4 Bydd pob Aelod Cyfetholedig yn gweithredu yn unol â'i benodiad.

1.5 Os nad yw Aelod Cyngor neu Aelod Eryri yn medru gweithredu am unrhyw gyfnod, rhaid i'r Cyngor neu'r Awdurdod y mae'n aelod ohono benodi, yn achos Cyngor, aelod o'r weithrediaeth neu yn achos yr Awdurdod, deilydd swydd berthnasol, i weithredu ar ei r(h)an am y cyfnod hwnnw.

1.6 Gall y CBC, drwy gytundeb ysgrifenedig, gyfethol un neu fwy o unigolion fel aelodau'r CBC neu is-bwyllgor o'r CBC ("**Aelod Cyfetholedig**" a)Bydd y CBC yn pennu hawliau pleidleisio Aelod Cyfetholedig ac, yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheoliadau Sefydlu, cyfnod y swydd honno.

## 2 IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

2.1 Rhaid i'r CBC sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) i

2.2 Caiff aelodaeth a chylch gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eu mabwysiadu gan y CBC fel y nodir yn Rhan 2

## *3 PWYLLGOR SAFONAU*

*3.1 Rhaid i'r CBC sefydlu Is-bwyllgor Safonau yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000. Bydd gan yr Is-bwyllgor Safonau swyddogaethau statudol dan Ran III y Ddeddf ac unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol.*

*3.2 Gall y CBC drefnu i'r Is-bwyllgor Safonau ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau eraill fel yr ystyria'n briodol.*

3.3 *Bydd aelodaeth a chylch gorchwyl yr Is-bwyllgor Safonau fel y nodir yn Rhan 2*.

## 4 IS-BWYLLGORAU ERAILL

4.1 Gall y CBC sefydlu is-bwyllgorau. Bydd aelodaeth a chylch gorchwyl unrhyw Is-bwyllgor Sefydlir fel y nodir yn Atodiad Rhan 2

4.2 Bydd unrhyw ddirprwyo i is-bwyllgor yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 5 isod.

## 5 DIRPRWYO

5.1 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 5.2 isod, gall y CBC drefnu i'w swyddogaeth gael ei wneud drwy-

5.1.1 Is-bwyllgor;

5.1.2 Aelod o staff;

5.1.3 Unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig arall;

5.1.4 Unrhyw gyngor neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

5.2 Ni all y CBC ddirprwyo unrhyw rai o'r isod i unrhyw berson nac is-bwyllgor arall:

5.2.1 Ei swyddogaeth mewn perthynas â chymeradwyo ac adolygu polisi trafnidiaeth dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Trafnidiaeth 2000 ("Swyddogaeth Polisi Trafnidiaeth");

5.2.2 Y gweithredoedd mewn perthynas â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol (y "Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol") sydd wedi'u nodi yn Rheoliad 15(b) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021;

5.2.3 Y penderfyniad i gytuno ar gyllidebau'r CBC a chyfraniadau'r Cynghorau Cyfansoddol a'r Awdurdod; a

5.2.4 Phenderfyniadau a chyfrifoldebau penodol eraill a nodir yn y Rheoliadau Sefydlu.

## 6 CYFARFODYDD CYFFREDINOL BLYNYDDOL A CHYFARFODYDD ERAILL

6.1 Rhaid i'r CBC gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol ar ddyddiad a bennir gan y CBC.

6.2 Gall y CBC gynnal cyfarfodydd eraill ar y y dyddiadau s osodir yn y calendr o gyfarfodydd a fanylir yn y Rheolau Sefydlog hyn (Rhan xxxx). Gellir galw cyfarfod arbennig o'r CBC unrhyw bryd gan unrhyw un sydd â hawliau pleidleisio ar y mater sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw.

## 7 CADEIRIO CYFARFODYDD

7.1 Yr eitemau busnes cyntaf i'w trafod yng nghyfarfod cyntaf y CBC yw penodi cadeirydd ac is-gadeirydd. Rhaid i'r Aelod Cyngor ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gadeirio'r cyfarfod hyd nes bod y cadeirydd wedi'i benodi.

7.2 Yr eitemau busnes cyntaf i'w trafod yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol dilynol y CBC yw penodi cadeirydd ac is-gadeirydd.

7.3 Os daw swydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn wag yn ystod cyfnod y swydd rhaid i'r penodiad i lenwi'r swydd gael ei wneud yng nghyfarfod cyntaf y CBC i'w gynnal wedi i'r swydd ddod yn wag.

7.4 Rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd fod yn Aelod Cyngor a rhaid iddynt gael eu penodi, neu eu cadarnhau gan yr Aelodau Cyngor, ac unrhyw Aelod arall sydd â hawl i bleidleisio ar y mater.

7.5 Rhaid i gyfarfodydd y CBC gael eu cadeirio gan y cadeirydd neu os yw'r cadeirydd y absennol, gan yr is-gadeirydd.

## 8 CWORWM

8.1 Rhaid i bawb sydd â hawl i bleidleisio fod yn bresennol ar gyfer:

8.1.1 cyfarfod i benderfynu ar y symiau sy'n daladwy gan Aelodau perthnasol y CBC ar gyfer Cyllideb y Cynllun Datblygu Strategol ac ar gyfer y Gyllideb Gyffredinol; ac

**8.1.2** ar gyfer penderfyniadau i newid gweithdrefnau pleidleisio.

8.2 Ar gyfer unrhyw faterion eraill, rhaid i ddim llai na 70% o'r sawl sydd â hawl i bleidleisio fod yn bresennol.

8.3 Ystyrir y bydd Aelodau yn bresennol mewn cyfarfod ble maent yn mynychu drwy ddulliau o bell yn unol a threfniadau y CBC am gyfarfodydd aml leoliad os y gallent siarad gyda, clywed a chael eu clywed gan fynychwyr eraill y cyfarfod

8.4 Ar gyfer darpariaethau paragraff 8.3 mae myncyhu “drwy ddulliau o bell” yn golygu mynychu mewn lleoliad ffisegol aral i’r cyfranogwyr erall a chyfranu drwy blatfform cyfarfodydd ar lein.

## 9 PLEIDLEISIO

9.1 Ni all nifer yr Aelodau Cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio fod yn uwch na nifer yr Aelodau eraill sydd â hawl i bleidleisio.

9.2 Bydd gan bawb sydd â hawl i bleidleisio un bleidlais.

9.3 Ac eithrio'r materion sydd wedi'u rhestru yn 10.3.1 a 10.3.2 isod, bydd unrhyw bleidlais yn cael ei phenderfynu drwy fwyafrif syml ac os yw'r bleidlais yn gyfartal ni fydd y mater wedi'i gario.

9.3.1 Bydd ariannu penderfyniadau cyllideb (cyfansymiau sydd yn daladwy gan y Cynghorau Cyfansoddol ag APCE) yn cael ei bennu drwy gytundeb unfrydol yr Aelodau sydd â hawl i bleidleisio. Os na all yr Aelodau ddod i gytundeb, bydd y cyfrannau'n cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru.

9.3.2 A gyfer unrhyw newid i drefniadau pleidleisio, bydd gofyn cael cytundeb unfrydol yr holl Aelodau sydd â hawl i bleidleisio ar y mater.

9.4 Er gwaethaf 9.3 uchod, os yw'r mater yn ymwneud â chynllunio strategol a bod y bleidlais yn gyfartal, bydd gan y sawl sy'n cadeirio bleidlais fwrw.

9.5 Gall y CBC fabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen ar gyfer unrhyw benderfyniad ac eithrio'r penderfyniad ar y gyllideb a'r penderfyniad i newid y gweithdrefnau pleidleisio eu hunain.

9.6 Bydd y rhaglen ar gyfer bob cyfarfod yn adnabod y trefniadau pleidleisio ar gyfer pob eitem.

**10 CYNNAL CYFARFODYDD**

10.1 Gellir cynnal cyfarfod CBC

10.1.1 mewn lleoliad a bennir gan y CBC;

10.1.2 drwy ddulliau o bell; neu

10.1.3 yn rhannol drwy ddulliau o bell ac yn rhannol mewn lleoliad a bennir gan y CBC.

10.2 Rhaid i gyfarfodydd y CBC fod yn agored i'r cyhoedd oni bai bod y cyhoedd wedi'u heithrio dan 11.2.1 neu 11.2.2 isod

10.2.1 Rhaid i'r cyhoedd gael eu heithrio o gyfarfodydd os yw hi'n debygol yn sgil natur y busnes # sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

10.2.2 Gellir, drwy benderfyniad, eithrio’r cyhoedd o gyfarfodydd os yw hi'n debygol yn sgil natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu.

(mae i "gwybodaeth gyfrinachol" a "gwybodaeth eithriedig" yr ystyron sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

**11 RHYBUDD O GYFARFODYDD A GWYSION I FYNYCHU**

11.1 Rhaid i CBC roi hysbysiad cyhoeddus o gyfarfod y CBC

11.1.1o leiaf pum diwrnod clir cyn y cyfarfod, neu

11.1.2os caiff y cyfarfod ei alw ar fyr rybudd, ar yr adeg y gelwir y cyfarfod.

11.2 Rhaid i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi'n electronig a rhaid iddo nodi dyddiad ac amser y cyfarfod a sut all y cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfod.

11.3 Os caiff y cyfarfod ei alw gan un o Aelodau'r CBC, rhaid i'r hysbysiad nodi'r busnes arfaethedig a chael ei lofnodi gan yr Aelod(au) sy'n galw'r cyfarfod neu ei fod yn cyfleu cymeradwyaeth yr Aelodau hynny drwy ddulliau electronig.

**12 MYNEDIAD I'R RHAGLEN A'R ADRODDIADAU CYSYLLTIEDIG**

12.1 Rhaid i gopïau dwyieithog o raglenni cyfarfod y CBC a chopïau o unrhyw adroddiad ar gyfer y cyfarfod gael eu cyhoeddi gan y CBC

12.1.1 yn electronig, ac

12.1.2 o leiaf pum diwrnod clir cyn y cyfarfod, neu, os caiff y cyfarfod ei alw ar fyr rybudd, ar yr adeg y caiff ei alw. Fodd bynnag, rhaid i ddogfennau o'r fath fod ar gael i Aelodau'r CBC cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

12.2 Ni all eitem o fusnes gael ei hystyried yng nghyfarfod y CBC oni bai bod

12.2.1 copi o'r rhaglen yn cynnwys yr eitem (neu gopi o'r eitem) yn cael ei gyhoeddi'n electronig o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod, neu, os caiff y cyfarfod ei alw ar fyr rybudd, ar yr adeg y caiff ei alw, neu

12.2.2 os oes amgylchiadau arbennig, y mae'n rhaid rhoi manylion amdanynt yn y cofnodion, bod cadeirydd y cyfarfod o'r farn y dylid ystyried yr eitem yn y cyfarfod fel mater o frys.

## 13 COFNODION A DOGFENNAU ERAILL AR ÔL CYFARFODYDD

13.1 Rhaid cofnodi enwau'r Aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod y CBC.

13.2 Rhaid cofnodi enwau'r Aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod y CBC. Rhaid i'r cofnodion gael eu cymeradwyo gan y sawl sy'n cadeirio cyfarfod y CBC neu'r sawl sy'n cadeirio cyfarfod arferol addas nesaf y CBC drwy lofnodi'r cofnodion, neu drwy gyfleu ei gymeradwyaeth yn electronig.

13.3 Ar ôl cyfarfod y CBC, rhaid i'r CBC

13.3.1 Gyhoeddi'r cofnodion, neu gopi o'r cofnodion, lle bo hynny'n berthnasol grynodeb o'r trafodion o ganlyniad i eithrio deunydd sy'n datgelu gwybodaeth eithriedig, copi o raglen y cyfarfod a chopi o unrhyw adroddiad ar gyfer y cyfarfod fel sy'n berthnasol i unrhyw eitem pan oedd y cyfarfod ar agor i'r cyhoedd.

13.3.2 sicrhau bod y dogfennau hynny'n parhau i fod ar gael yn electroneg i aelodau'r cyhoedd hyd nes bod y cyfnod o chwe blynedd yn dod i ben sy'n dechrau gyda dyddiad y cyfarfod.

13.3.3 Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl cyfarfod y CBC, a beth bynnag cyn pen saith diwrnod gwaith sy'n dechrau gyda'r dyddiad pan gynhaliwyd y cyfarfod, rhaid i'r CBC gyhoeddi'n electronig nodyn sy'n egluro-

(a) enwau'r aelodau a fynychodd y cyfarfod, ac unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb;

(b) unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb;

(c) unrhyw benderfyniad a wnaed yn y cyfarfod, yn cynnwys canlyniad unrhyw bleidleisiau, ond gan eithrio unrhyw beth sy'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed pan nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd gan y byddai wedi datgelu gwybodaeth eithriedig.

## 14 IS-BWYLLGORAU

14.1 Mae Adrannau 10 i 13 yn berthnasol i gyfarfod o is-bwyllgor o'r CBC fel y maent yn berthnasol i gyfarfod o'r CBC.

14.2 Wrth sefydlu is-bwyllgor, bydd y CBC yn sefydlu'r trefniadau pleidleisio fel rhan o gylch gorchwyl yr is-bwyllgor a fydd wedi'i ymgorffori i'r Rheolau Sefydlog hyn.

## 15 CYLLIDEB

15.1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r CBC gyfrifo ei gyllideb ar gyfer ei swyddogaethau:

a) Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol ("**Cyllideb y Cynllun Datblygu Strategol**")

b) Swyddogaethau eraill (y "**Gyllideb Gyffredinol**")

15.2 Caiff y gyllideb ei chytuno ddim hwyrach na 31 Ionawr 2022 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyntaf a dim hwyrach na 31 Ionawr ar gyfer pob blwyddyn ddilynol.

15.3 Gellir gwneud addasiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r gyllideb honno'n berthnasol iddi.

15.4 Rhaid i'r cyfraniad perthnasol i ofyniad Cyllideb y Cynllun Datblygu Strategol gael ei dalu gan APCE a'r Cynghorau Cyfansoddol - bydd y gyfran sydd i'w thalu gan bob un i'w phenderfynu drwy gytundeb unfrydol yr Aelodau Cyngor a'r Aelod Eryri.

15.5 Rhaid i'r cyfraniad perthnasol i ofyniad Cyllideb Gyffredinol gael ei dalu gan y Cynghorau Cyfansoddol - bydd y gyfran sydd i'w thalu gan bob un i'w phenderfynu drwy gytundeb unfrydol yr Aelodau Cyngor.

## 16 CRONFA GYFFREDINOL

16.1 Rhaid i'r CBC sefydlu a chynnal cronfa a gaiff ei hadnabod fel Cronfa Gyffredinol y CBC.

16.2 Rhaid i unrhyw symiau a dderbynnir neu a delir gan y CBC, ac eithrio ar gyfer cronfeydd allanol penodol a nodir yn y Rheoliadau Sefydlu, gael eu gwneud drwy Gronfa Gyffredinol y CBC.

16.3 Rhaid i'r CBC gadw cofnodion o arian a dderbynnir i'w Gronfa Gyffredinol a thaliadau a wneir ohoni.

## 17 GWEINYDDIAETH ARIANNOL

17.1 Bydd y CBC yn mabwysiadu Rheolau Sefydlog Ariannol i lywodraethu ei drefniadau ariannol.

## 18 STAFFIO

18.1 Bydd y CBC yn gwneud trefniadau mewn perthynas â staffio fel sy'n angenrheidiol er mwyn ymgymryd â'i swyddogaethau'n briodol. Mae'r darpariaethau yn y Rheoliadau Sefydlu yn berthnasol i drefniadau'r CBC ar gyfer staffio.

18.2 Lle bo angen, bydd y CBC yn mabwysiadu Datganiad Polisi Tâl.

## 19 DYLETSWYDD I BENODI PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

19.1 Bydd y CBC yn penodi prif swyddog gweithredol.

19.2 Rhaid i'r prif weithredwr

19.2.1 Adolygu sut mae'r CBC yn gweithredu ei wahanol swyddogaethau, trefniadau'r CBC a materion staffio, a

19.2.2 lle ei bod hi'n briodol gwneud hynny, cyflwyno adroddiad i'r CBC yn amlinellu cynigion y prif weithredwr mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion hynny.

19.3 Bydd darpariaethau yn y Rheoliadau Sefydlu mewn perthynas â chyflogaeth uniongyrchol prif swyddog gweithredol yn berthnasol.

## 20 DYLETSWYDD I BENODI PRIF SWYDDOG CYLLID A SWYDDOGAETHAU ADRODD

20.1 Bydd y CBC yn penodi prif swyddog cyllid dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

20.2 Bydd prif swyddog ariannol y CBC yn gyfrifol am weinyddu'n briodol ei faterion ariannol a bydd ganddo ddyletswyddau adrodd dan Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

## 21 DYNODI AC ADRODDIADAU SWYDDOG MONITRO

21.1 Rhaid i'r CBC ddynodi swyddog monitro dan adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 na fydd yr un unigolyn â phrif swyddog gweithredol neu brif swyddog cyllid y CBC.

**21.2** Bydd gan swyddog monitro'r CBC y dyletswyddau dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mewn perthynas â'r CBC ynghyd â swyddogaethau cefnogi a chynghori mewn perthynas â chyfarfodydd y CBC ac is-bwyllgorau a'u haelodau fel y nodir yn Rheoliad 8 Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

## 22 IAITH A CHYFIEITHU

22.1 Cynhelir holl gyfarfodydd y CBC ac unrhyw Is bwyllgorau yn ddwyieithog a gall pawb sy'n cymryd rhan siarad drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu Saesneg. Bydd yr Awdurdod Lletya yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

## 23. COFNODION

23.1 Bydd y CBC yn gwneud trefniadau ar gyfer gofal, cadwraeth a rheolaeth briodol cofnodion y CBC, a gwneud a chynnal cynllun sy'n amlinellu'r trefniadau hynny a gaiff eu cymeradwyo gan y CBC ac a amlinellir yn Atodiad 4 (y "Cynllun Cofnodion").

23.2 Mae darpariaethau yn y Rheoliadau Sefydlu yn ymwneud â pharatoi, cadw, cyhoeddiadau a hwyluso mynediad i ddogfennau a chofnodion gan y CBC.

## 24. COD YMDDYGIAD

23.1 Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion)(Cymru) 2001 yn sydd yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod yn gymwys i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig

23.2 perthnasol yng NghymruMae'r CBC wedi mRhan???. mabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer Aelodau ("**Cod Ymddygiad yr Aelodau**") fel a atodir yn Rhan?? . Rhaid i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig gydymffurfio a'r Cod Ymddygiad ble mae'n weithredol.

23.3 Mae Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001(1) ("Gorchymyn 2001") yn gymwys i gyflogai cyd-bwyllgor corfforedig fel y mae'n gymwys i gyflogai awdurdod perthnasol

## IS BWYLLGOR CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL

## IS BWYLLGOR CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

## *IS BWYLLGOR BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU*

## CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGOR SAFONAU

## LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

**AEOLDAETH**

**CYLCH GORCHWYL**

22.1.1 adolygu a chraffu materion ariannol y CBC;

22.1.2 gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y CBC;

22.1.3 adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y CBC;

22.1.4 gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r CBC ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;

22.1.5 goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CBC;

22.1.6 adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratoir gan y CBC;

22.1.7 ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau eraill fel y manyla'r CBC.

## RHAN 3

## CYNLLUN DIRPRWYO

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **14 Ionawr 2022** |
| PWNC: | **Blaen Raglen Waith y CBC** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards**, **Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

**Cymeradwyo Blaen Raglen Waith Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd fel y'i cyflwynwyd, neu i gynnig addasiadau / materion ychwanegol**

---

**BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyhoeddir Blaen Raglen Waith Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yma er mwyn rhoi rhybudd ymlaen llaw am yr hyn fydd yn cael ei drafod a'i benderfynu gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Bydd hon yn ddogfen 'fyw' gydag eitemau yn cael eu hychwanegu yn gyson yn ôl yr angen.  Mae Blaen Raglen Waith gychwynnol y CBC fel a ganlyn.

**Cyfarfod 14eg Ionawr 2022 y CBC**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2021/22

Penodi Swyddogion Statudol

Mabwysiadu Rheolau Sefydlog

Blaen Raglen Waith gychwynnol

**Cyfarfod 28ain Ionawr 2022 y CBC**

Cyllideb Flynyddol y CBC ar gyfer 2022/23

Cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol i'w codi drwy Ardoll

**Cyfarfodydd dilynol y CBC**

Mabwysiadu strwythur is-bwyllgorau, ystyried cyfethol, a hawl pleidleisio

Trefniadau ar gyfer Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a phenodi aelodau

Trefniadau ar gyfer Is-Bwyllgor Cynllunio Strategol

Trefniadau ar gyfer Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

Trefniadau ar gyfer Pwyllgor Safonau

Datblygu a sefydlu fframwaith Craffu (pan fydd rheoliadau Llywodraeth Cymru ar CBCau yn darparu'r sylfaen berthnasol ar gyfer y trefniadau)

Pennu dyddiadau cyfarfodydd y CBC

Diweddariad ar Reoliadau CBC a'r ymateb / camau gweithredu sy'n ofynnol

Mabwysiadu dogfennaeth llywodraethu pellach

Sefydlu trefniadau llywodraethu a chefnogi cyfarfodydd parhaus

Cynllun Busnes Blynyddol y CBC am 2022/23

Cynllun a Ffioedd Archwilio Cymru am 2021/22 a 2022/23

Cynnydd gyda dyletswyddau Cynllunio Strategol

Cynnydd gyda dyletswyddau Trafnidiaeth Strategol

Diweddariad ar drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd

Trefniadau ar gyfer Is-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd (os/pryd bydd penderfyniad ffurfiol gan yr awdurdodau lleol, ynghyd â chydsyniad y partneriaid eraill yn GA2, i drosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC)

Cytundeb Llywodraethu gyda'r awdurdodau cyfansoddol ynghylch swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, ac unrhyw gytundebau “awdurdod lletya” arall, gyda'r CBC yn ofynnol i weithredu'r trefniant arfaethedig

Cyfrifon Archwiliedig ar gyfer 2021/22 (os oes angen, dychweliad cyrff llai)

Diweddariad Monitro Cyllideb 2022/23

Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 ar gyfer y CBC? (os oes angen)

Cyllideb Flynyddol y CBC ar gyfer 2023/24 (yn ofynnol erbyn 31 Ionawr 2023)

Cynllun Busnes Blynyddol y CBC am 2023/24 (yn ofynnol erbyn 31 Ionawr 2023)